Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

# Penodiad newydd i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae Anthony Harbinson yn ymuno â’r Bwrdd ar ôl ymddeol yn ddiweddar o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon fel Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.?

Yn Gyfrifydd Ardystiedig Siartredig cymwysedig, bu’n gwasanaethu am 15 mlynedd yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Iechyd a Phersonol Gogledd Iwerddon, cyn cael ei benodi’n Uwch Gyfarwyddwr Cynorthwyol Erlyniadau Cyhoeddus, ac yna’n Gyfarwyddwr Adnoddau yn Swyddfa Gogledd Iwerddon. ?

Yn 2010 ymunodd ag Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon a oedd newydd ei ffurfio, lle bu’n dal nifer o swyddi arwain gan gynnwys Cyfarwyddwr Mynediad at Gyfiawnder a Phrif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon.
?

Meddai’r Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB:

> Mae’n bleser croesawu Anthony i Fwrdd yr ASB.  Bydd yn dod â chryn wybodaeth a phrofiad i’r Bwrdd ac i NIFAC, gyda mewnwelediad dwfn i’r strwythurau datganoledig y mae’r ASB yn gweithredu oddi mewn iddynt. Edrychaf ymlaen at weithio gydag ef wrth i ni barhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chyflawni ein cenhadaeth, sef ‘bwyd y gallwch ymddiried ynddo’.”

Bydd y penodiad hwn yn golygu ymrwymiad amser o 35 diwrnod y flwyddyn, a bydd tâl am y rôl ar gyfradd o £14,000 y flwyddyn. Gwnaed y penodiad hwn ar sail teilyngdod a gan ddilyn Cod Ymarfer Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.